# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 19 Gorffennaf 2024** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, R.W.Wood, C.Clement-Williams, G.Rice, A.Dacey a/ac R.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, J.Stevens, A.Havard, S. Owen a/ac T. Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hurley, S.Jones a/ac LEADER |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd fod y Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r eitemau canlynol o Flaenraglen Waith y Cabinet.

   Eitem 5a: Adroddiad Cynllun Peilot Goleuadau Stryd Rhan Amser Gyda'r Nos
   Eitem 5b: Strategaeth a Chynllun Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10/01/24, 09/02/24, 22/03/24 a 19/04/24 fel cofnod cywir o'r trafodion.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cafodd yr eitem hon ei hepgor oherwydd camgymeriad gweinyddol.

5. **YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet.

(a) **Cynllun Peilot - Goleuo rhannol gyda'r hwyr**

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Strydlun, y Cyng. Scott Jones, rywfaint o gefndir i'r pwyllgor ynghylch yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cynnydd sylweddol yn y gyfradd ynni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf sydd wedi rhoi pwysau mawr ar gyllidebau adrannol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Adran Goleuadau Strydoedd Cyhoeddus wedi tynnu sylw at 3 strategaeth arbed ynni posib yn ystod 2023/24 i gyfyngu ar y gorwariant.
Lleihawyd lefelau pŵer pob colofn golau stryd gwerth 3 Watt ac yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 22 Mawrth 2024, rhoddwyd pylu goleuadau 25% ar waith ar draws 10,000 o lusernau LED. Cyn i'r Cabinet gymeradwyo pylu goleuadau 25%, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â phrawf llwyddiannus yn 2024.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod y trydydd opsiwn o oleuadau rhan amser gyda'r nos wedi'i ohirio nes y cynhelir astudiaeth beilot i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau strategaethau arbed a thrwy hynny alluogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y dyfodol, os oes angen.

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod fel pwyllgor, cyn cynnal y prawf, wedi gofyn i Fwrdd y Cabinet am adroddiad pellach sy'n cynnwys manylion lleoliadau daearyddol, hyd y prawf a'r amseroedd ar gyfer cynnau a diffodd y goleuadau fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad.

Nododd Aelod y Cabinet fod aelodau yng nghyfarfod Craffu mis Mawrth wedi argymell pryderon ynghylch diffodd goleuadau stryd am 9.00pm gyda'r nos, a allai golygu bod menywod a merched yn fwy agored i niwed ac eglurodd fod y pryder hwn wedi'i ystyried, a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn yr amseroedd ac yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn flaenorol.

Mynegwyd hefyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal fel rhan o astudiaeth beilot cyn dechrau'r prawf a bydd yn cynnwys asesiad o'r

effaith ar fenywod a merched ifanc o ran trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet fod y broses o ymgynghori â'r partneriaid hynny wedi dechrau ac os cymeradwyir y cynllun peilot goleuadau rhan amser gyda'r nos arfaethedig gan y Cabinet, caiff ei gynnal drwy gydol mis Tachwedd, a bydd yn cynnwys cyfanswm o 133 o lusernau dros saith lleoliad.
Bydd y llusernau'n cael eu diffodd rhwng 1.00am a 5.00am ac ar ôl cwblhau canlyniadau'r cynllun peilot bydd adborth gan randdeiliaid yn cael ei gasglu yn barod ar gyfer unrhyw drafodaethau yn y dyfodol neu gyfnod brawf hwy.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, fel rhan o'r broses ymgynghori, y bydd asiantaethau a phreswylwyr yr effeithir arnynt yn cael gwybod am hyn cyn dechrau'r cynllun peilot a chaiff adborth gan y Pwyllgor Craffu ac aelodau hefyd ei ystyried fel rhan o'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym mis Medi.

Esboniodd swyddogion fod dewis y lleoliadau wedi bod yn broses anodd gan ei fod yn fater sensitif ond mae'n rhaid ei wneud fel rhan o'r prawf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y gallai hyn fod yn rhagflas ar brawf pellach yn ddiweddarach ar gyfer diffodd mwy o oleuadau ac y bydd hynny'n arwain at ymgynghori pellach.

Esboniodd swyddogion eu bod hefyd wedi trefnu cyfarfodydd gyda grŵp lleol o'r enw 'Thrive' sy'n dechrau ddydd Gwener nesaf ac mae swyddogion wedi bod yn trafod â'r tîm diogelwch cymunedol sydd wedi darparu rhestr o fannau lle mae nifer o broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol i swyddogion ac mae'r swyddogion wedi ceisio osgoi'r mannau hyn yn ystod y prawf.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, pe bai prawf pellach a/neu fwy yn cael ei ystyried yn briodol, y byddai'n cael ei gynnal ar draws ardal fwy eang oherwydd y byddai cyfanswm o 133 o oleuadau, sef 19 o oleuadau fesul lleoliad ar gyfartaledd.

Nododd swyddogion na fyddai'r rhan fwyaf o bobl am i'w goleuadau cael eu diffodd ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd dewis y lleoliadau. Dywedodd swyddogion eu bod wedi ceisio ei wneud yn onest ac yn agored gyda chalon dda a heb unrhyw ymyrraeth gan unrhyw un.

Awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal y cynllun prawf mewn rhai ardaloedd gwledig iawn i gael adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa a gofynnwyd sut y bydd yn effeithio ar yr ardaloedd hynny. Dywedodd swyddogion eu bod wedi siarad â'r heddlu a'u bod yn credu, er mwyn sicrhau bod y prawf gwerth chweil, eu bod wedi edrych ar ardaloedd mwy trefol yn hytrach nag ardaloedd gwledig oherwydd eu bod yn credu y gallai fod mwy o broblemau o bosib gyda lleoliadau trefol yn hytrach na rhai gwledig.

Nododd yr Aelodau mai dim ond un gymuned yn y cymoedd sydd wedi'i chynnwys yn y prawf a gofynnwyd sut y bydd hynny'n cynhyrchu cipolwg o ddosbarthiad daearyddol o awdurdod 34 ward pan fydd ardaloedd trefol yn cael eu dewis yn bennaf? Nododd yr aelodau hefyd fod lleoliadau 5 a 6 yn y prawf o fewn yr un ward, sef Margam a Thai-bach, a gofyn a oes unrhyw reswm y tu ôl i hynny?

Dywedodd swyddogion eu bod wedi bod yn ymgynghori â'r heddlu, ac fe wnaethant nodi trwy hynny fod mwy o debygolrwydd y bydd problemau sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd trefol ac mae llawer mwy o oleuadau i'w diffodd yn yr ardaloedd trefol ac oherwydd hyn, mae swyddogion wedi penderfynu ar hollt cyfartal ar draws y fwrdeistref sirol.

O ran sefyllfa'r ddwy ardal ym Margam, dywedwyd mai penderfyniad swyddog yw hyn ac nad oes unrhyw reswm arall heblaw am y ffaith eu bod yn teimlo mai dyma'r peth cywir i'w wneud yn y lleoliad hwnnw.

Gofynnodd yr Aelodau o ble cafwyd y data ar gyfer y cyfraddau troseddu a holwyd a oedd dewis ardaloedd trosedd isel yn golygu nad oes hyder yn y polisi ac os felly, os caiff ei weithredu'n llawn ac a allai'r awdurdod fod yn peryglu diogelwch ei drigolion? Dywedodd swyddogion na fyddant am roi unrhyw un mewn perygl a bod yn rhaid i'r prawf gael ei gynnal mewn rhai lleoliadau penodol ar draws y sir. Mae swyddogion yn ymgynghori â'r tîm diogelwch cymunedol, a byddant yn cyfathrebu â Thrive. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y prawf yn cynnwys llai nag 1% o'r goleuadau o fewn yr awdurdod.

Dywedodd swyddogion y bydd canlyniad y prawf a'r wybodaeth a gesglir yn llywio'r hyn sy'n digwydd nesaf. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd bod mantais i gynnal y cyfarfodydd craffu cyn cyfarfod y Cabinet, sef bydd yn rhoi 7 wythnos i swyddogion wneud pethau'n

fwy cadarn er mwy iddynt geisio dod yn ôl at y pwyllgor ym mis Medi gyda rhai manylion am yr ymgynghoriadau y mae swyddogion wedi eu cynnal.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ffactorau eraill wedi cael eu hystyried sy'n ymwneud â lleoliad 6 (Margam a Thai-bach) oherwydd bod gan y ffordd bengaead yn benodol ddemograffig hŷn ac mae llawer o staff allgymorth ac ambiwlansys yn ei defnyddio. Gofynnodd yr aelodau hefyd sut y gallai hynny effeithio ar y trigolion hynny os nad oes goleuadau yn ystod oriau mwyaf peryglus y nos?

Nododd swyddogion yr wybodaeth a dywedwyd efallai rhwng nawr a mis Medi, yn dilyn adborth, y gallent addasu'r atodiad ychydig. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion o ran yr ymgynghoriad, yn benodol ynghylch sut y cysylltir â thrigolion a pha ffurf y bydd swyddogion yn ei defnyddio i gasglu'r adborth gan breswylwyr. Dywedodd swyddogion eu bod yn bwriadu dosbarthu llythyrau i'r holl breswylwyr i'w hysbysu o'r cynigion ac ar y llythyr bydd gwybodaeth am sut y gallant roi adborth ac, os oes angen, cynhelir trafodaethau wyneb yn wyneb â nhw.

Gofynnodd yr Aelodau a fydd preswylwyr yr effeithir arnynt yn derbyn gostyngiad ar dreth y Cyngor gan fod lleihad yn eu gwasanaeth? Dywedodd swyddogion nad oeddent yn meddwl y byddai hynny'n wir.

Gofynnodd yr Aelodau pwy fydd yn monitro effaith y prawf a beth sydd ar waith o ran os oes angen iddo gael ei ohirio os bydd tywydd gwael yn arwain at ddamwain neu unrhyw beth tebyg yn ardaloedd y prawf.

Esboniodd swyddogion y bydd swyddogion yn cael trafodaethau parhaus gyda'r Heddlu, y Tîm Diogelwch Cymunedol a Thrive, unwaith y bydd y cynlluniau posib hyn i ddiffodd goleuadau'n cael eu rhoi ar waith.  Nid yw llawer o'r ardaloedd sydd wedi cael eu dewis yn ffyrdd cyflym, a bydd y cynllun yn cael ei atal os oes angen.

Nododd swyddogion fod diffodd y goleuadau am hyd yn oed gyfnod byr yn golygu y bydd hi'n anodd i swyddogion ddeall a fyddai digwyddiad neu drosedd wedi'i chyflawni oherwydd y diffyg golau neu a fyddai'r trosedd wedi digwydd beth bynnag. Bydd swyddogion yn ymgynghori'n agos â'r holl bartïon dan sylw ac os oes angen gwneud unrhyw beth, bydd y gwaith yn cael ei wneud, ac adroddir yn ôl lle bo angen ar ddiwedd y prawf.

Gofynnodd yr Aelodau a fydd cronfa'n cael ei sefydlu ar gyfer dioddefwyr o ganlyniad i weithredoedd y Cyngor mewn perthynas â'r profion hyn? Doedd y swyddogion ddim yn ymwybodol o gronfa o'r fath.

Gofynnodd yr Aelodau i Aelod y Cabinet a oedd hwn o ganlyniad i'r Cyngor yn chwarae gemau gyda bywydau trigolion i arbed arian a nodwyd nad yw'n argoeli'n dda ar gyfer trigolion Godre'r Graig, sy'n ceisio adeiladu ysgol newydd, gan fod yr awdurdod wrthi'n diffodd goleuadau yn y pentref hwnnw i arbed arian.

Atebodd Aelod y Cabinet Scott Jones fod hyn yn ymwneud ag arian, ac mae wedi bod yn amlwg iawn ers y diwrnod cyntaf bod hyn yn rhan o ymarfer cynilo. Dywedodd Aelod y Cabinet y byddai'n llawer gwell ganddo dreulio ei amser yn gweithio gyda'r pwyllgor craffu, gan edrych ar ffyrdd y gall pob un ohonynt wella ansawdd gwasanaethau yn hytrach na threulio amser ar yr hyn y mae angen ei dorri ar draws yr awdurdod.

Nododd Aelod y Cabinet fod newid wedi bod yn ddiweddar yn y llywodraeth, a dywedodd ei fod yn gobeithio, er nad oedd yn disgwyl gwyrthiau o fewn mater o wythnosau, y bydd cynghorau ledled Cymru yn derbyn y buddsoddiad y mae ei angen arnynt rhwng nawr a setliad y gyllideb nesaf ac felly efallai y byddwn yn cael trafodaethau gwahanol mewn cyfarfodydd craffu wrth symud ymlaen.

Gofynnodd yr aelodau faint o waith sydd wedi'i wneud gyda chynghorau eraill sydd wedi gwneud profion ynghylch hyn, er enghraifft Powys a'r adborth roeddent wedi'i dderbyn a sut roedd hynny wedi effeithio ar y cynllun.

Eglurodd swyddogion fod ymgynghoriad wedi dechrau cyn cyfarfod y Cabinet ym mis Medi gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ac mae swyddogion yn aros am wybodaeth i gyrraedd am hynny.

Esboniodd swyddogion fod lefel eithaf uchel o weithgarwch o ran cyflawni prosiectau. Mae hyn, yn ogystal â'r Swyddog yn cymryd cyfrifoldeb dros yr adran goleuadau ym mis Ebrill yn unig, yn golygu bod pethau wedi bod ychydig yn araf, fodd bynnag, dywedodd swyddogion fod ganddynt wyth wythnos arall i fynd tan yr adroddiad terfynol a bydd ganddynt lawer mwy o wybodaeth erbyn cyfarfod y Cabinet ym mis Medi.

Yn dilyn gwaith craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion.

(b) **<u>Cynllun a Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol</u>**

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Strydlun, Scott Jones, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am yr adroddiad. Dywedodd fod y Cyngor yn gweithredu fel awdurdod llifogydd lleol arweiniol ar gyfer y rhanbarth ac mae ganddo ddyletswydd statudol i gynhyrchu a datblygu strategaeth a chynllun lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd fel y nodir o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr awdurdod wedi cyhoeddi ei strategaeth leol gyntaf yn 2014, gan nodi'r ymagwedd drosfwaol at reoli perygl llifogydd lleol ac, ochr yn ochr â'r strategaeth leol, cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn 2015.
Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi datblygu'r amcanion, y mesurau a'r camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth Leol yn gynllun manylach ar gyfer rheoli llifogydd yng nghymunedau'r awdurdod yn seiliedig ar wardiau gwleidyddol.

Eglurodd Aelod y Cabinet mai'r ail Strategaeth Leol yw'r ddogfen ac er bod yr awdurdod wedi cyhoeddi'r Strategaeth Leol ar wahân yn flaenorol, mae'r strategaeth leol a'r cynllun newydd hon yn integreiddio'r ddwy ddogfen yn un, gan leihau'r cymhlethdod a'r dyblygiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd y ddogfen hon yn gweithio ochr yn ochr â chynlluniau strategol eraill ar gyfer rheoli traethlinau, isadeiledd a chynllunio ac yn nodi'r cyfeiriad y mae'r awdurdod am ei ddilyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y ddogfen yn esbonio sut y bydd llifogydd yn cael eu rheoli ar draws ardal yr Awdurdod Lleol yn gyson â'r amcanion, y mesurau a'r polisïau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig a nodir yn y Strategaethau Cenedlaethol.

Eglurodd Aelod y Cabinet fod y ddogfen wedi'i hysgrifennu mewn ffordd y gall y cyhoedd ehangach ac ymarferwyr perygl llifogydd ei defnyddio a'i chyfeirio ato.

Dywedodd Aelod y Cabinet mai bwriad yr awdurdod yw adolygu'r strategaeth a'r cynllun bob dwy flynedd, a bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau bod hwn yn faes pwysig iawn o fewn y meysydd priffyrdd a systemau draenio. Mae llawer o fuddsoddiadau wedi'u gwneud i'r awdurdod a staffio a chynllunio ymlaen llaw a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod swyddogion mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn rheolaidd a bod gan swyddogion gynllun gwaith ar y gweill dros y 10 mlynedd nesaf sydd wedi'i chynllunio ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau ar draws y fwrdeistref sirol yn seiliedig ar angen, sydd â chyfanswm gwerth o £35,000,000.

Eglurodd swyddogion fod y rhain yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru oherwydd ar hyn o bryd yng nghyllideb gyfalaf yr awdurdod £300,000 y flwyddyn yn unig sydd gan yr awdurdod, sydd wedi'i leihau gan chwyddiant. Mae swyddogion yn teimlo bod yr awdurdod ar flaen y gad o ran perygl llifogydd yng Nghymru ac efallai yn y DU ac mae ganddo dîm gwych o unigolion ac maent yn paratoi ar gyfer y dyfodol, ond bydd llawer o'r gwaith hwn yn dibynnu ar gyllid grant wrth symud ymlaen.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr awdurdod wedi gwneud llawer iawn o waith ar draws y fwrdeistref sirol ac, er bod Llywodraeth Cymru'n darparu 85% o'r cyllid, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddod o hyd i 15% o'r cyllid yn fewnol. Dywedodd swyddogion y bydd angen i'r awdurdod ddod o hyd i oddeutu £5.1 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf er mwyn dod o hyd i'r £35 miliwn a grybwyllwyd.

Dywedodd swyddogion eu bod yn credu bod yr awdurdod mewn sefyllfa llawer gwell heddiw o ran perygl llifogydd o'i gymharu â blynyddoedd yn ôl.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod oddeutu 64,000 eiddo o fewn yr awdurdod ac mae risg posib o lifogydd i oddeutu 24,500 eiddo o fewn yr awdurdod o wahanol ffynhonellau ac o lefelau risg gwahanol.

Esboniodd swyddogion fod yr hydroleg sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth, yn cael ei arwain gan allu a thrwy systemau trefol a draenio cynaliadwy, mae'r awdurdod yn ceisio tynnu dŵr allan o'r prif systemau draenio. Mae'r cyhoedd yn aml yn meddwl bod y draeniau wedi'u rhwystro, ond mater o allu'n unig yw hyn.
Nododd yr Aelodau fod y camau a restrir yn yr adroddiad yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru a chyllid mewnol, ond nid yw'n dweud a yw'r rhain yn brosiectau dyheadol neu'n brosiectau y gellir eu cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cyllid eisoes wedi'i nodi ar gyfer

cynllun 10 mlynedd yr awdurdod y cytunwyd arno mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd swyddogion nad cynlluniau dyheadol yw'r rhain, a dylent allu cael eu cyflawni cyn belled â bod y ffrydiau cyllido'n parhau. Os na fydd y ffrydiau ariannu'n parhau, byddant yn ddyheadol.

Rhoddodd swyddogion yr enghraifft o gynllun a gynhigiwyd i'w ddatblygu fel achos busnes llawn eleni, ond ni dderbyniodd yr awdurdod yr arian ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru felly mae hynny wedi'i osod yn ôl ar y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.
Nododd yr Aelodau fod yr awdurdod wedi gallu sicrhau cyllid yn 2018/19 i helpu i ddiogelu'r morglawdd yn Aberafan ac adeiladwyd ramp. Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y pwynt lle mae'r morglawdd yn dod i ben. Mae'r erydiad ar ochr wal y morglawdd wedi parhau'n eithaf difrifol yn ystod blynyddoedd diweddar a chyda'r tebygolrwydd y bydd lefelau'r môr yn codi a'r erydiad yn parhau, roedd aelodau am wybod a oedd gan swyddogion gynllun penodol ar waith gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Gofynnodd yr aelodau hefyd a allai'r awdurdod wthio i geisio dod ag arian i mewn i ymestyn y promenâd neu'r amddiffynfeydd môr o'r man lle maent yn dod i ben ar hyn o bryd i'r man a elwir yn 'Clwb Llynges'.

Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol o hyn ac eglurwyd bod strategaeth 'cynnal y llinell' sy'n gysylltiedig â glan y môr. Mae'r promenâd yn defnyddio rheolaeth naturiol sy'n gysylltiedig â gweddill glan y môr, mae'n erydu dros amser.

Nododd swyddogion y byddai Rhodfa Scarlett yn cael ei effeithio, a byddant yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar hyn, fodd bynnag, mae ffrydiau cyllido wedi dod i ben ers 2019 ac mae'n dibynnu a fydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i ymgymryd â gwaith pellach.

Mae swyddogion yn credu bod Llywodraeth Cymru'n ceisio cydbwyso erydiad arfordirol a pherygl llifogydd o lu o ardaloedd a bydd swyddogion yn parhau i roi pwysau arnynt, ond nid oes cyllid ar gael.

Tynnodd yr Aelodau sylw at dudalen 211. Mae'n nodi bod angen cyllid mewnol ychwanegol sylweddol ar gyfer y cynllun hwn a gofynnwyd ai dyna yw'r £35 Miliwn y cyfeirir ato gan swyddogion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r £35 miliwn yw'r buddsoddiad angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynlluniau dros y 10 mlynedd nesaf ac ar hyn o bryd mae angen i'r awdurdod ddod o hyd i 15% o'r swm

hwnnw. Mae swyddogion wedi cael trafodaethau gyda'r adran gyllid ac mae darpariaethau yn y gyllideb ar gyfer hyn ar hyn o bryd.

Teimlai'r aelodau y byddai'n ddefnyddiol egluro hyn yn yr adroddiad a theimlwyd bod diffyg manylder ynghylch faint y bydd pethau'n costio ac o ble fydd yr arian yn dod.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a fyddai'n bosib iddynt gael syniad o'r costau ar gyfer peidio â chynnal y cynlluniau yn yr adroddiad a defnyddiwyd enghraifft o gostau tebygol os bydd busnesau ac aelwydydd yn dioddef llifogydd, neu ddifrod arall.
Cydnabu'r Aelodau y bydd yr awdurdod yn debygol o frwydro am gyllid a dyna pam y byddai'n bwysig gallu rhoi rhif ariannol ar y gost a'r arbedion o ganlyniad i hyn.

Nododd yr Aelodau y bydd yr arian o'r Grant Refeniw Llifogydd yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw, ac mae'r adroddiad yn nodi mai'r gobaith yw y bydd yr awdurdod yn parhau i gael yr un lefel o gyllid. Gofynnodd yr aelodau pa mor realistig oedd hyn unwaith y byddai'r arian yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi cael sicrwydd y bydd yr arian sydd wedi symud i'r Grant Cynnal Refeniw yn aros o fewn cyllideb y gwasanaethau priffyrdd a draenio.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan swyddogion amlinelliad eang o'r cynlluniau ac mae ganddynt flaenoriaethau yn seiliedig ar y cyfrifiadau a wnaed gan y tîm ar risg llifogydd posib o fewn yr awdurdod. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr asesiadau'n seiliedig ar 1 digwyddiad llifogydd mewn 30 mlynedd, 1 digwyddiad llifogydd mewn 100 mlynedd ac 1 digwyddiad llifogydd mewn 1000 o flynyddoedd.

Eglurodd swyddogion ei fod yn anodd gwneud cyfrifiadau sy'n seiliedig ar gost oherwydd mae asesu cost digwyddiadau llifogydd yn y gymuned yn golygu cost ariannol ac hefyd yr effaith y mae'n ei gael ar yr agweddau cymdeithasol megis pobl yn gorfod symud allan o dai etc. Roedd swyddogion yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cynnwys atodiad a oedd yn nodi'r gwaith sydd ar y gweill gan yr awdurdod dros y 10 mlynedd nesaf a'r costau cysylltiedig. Dywedwyd wrth yr aelodau fod tair blynedd wedi mynd heibio a'u bod wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth gyflawni prosiectau gwerth dros £3 miliwn mewn ardaloedd lleol a dros y 10 mlynedd nesaf byddant yn darparu

cynlluniau mwy. Bydd y manteision tymor hir o ganlyniad i hyn yn aruthrol i'r ardal ac mae hynny'n wir ar gyfer y dalgylch hefyd.

Esboniodd swyddogion nad oeddent yn gallu mynd i Lywodraeth Cymru i ofyn am arian ar gyfer cynllun. Mae'n rhaid i swyddogion wneud achos busnes amlinellol, yna achos busnes llawn. Yna mae'n rhaid iddynt wneud adroddiad arall sy'n sôn am gyllid, a gall y rhain gymryd blynyddoedd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau yn hytrach nag edrych ar y cynllun o ran meysydd gwleidyddol, maent wedi penderfynu edrych arno fel dalgylchoedd yn lle. Rhoddwyd enghraifft i'r aelodau ar sut mae glaw yn y Cimla yn cyrraedd y môr ychydig y tu allan i Lansawel. Mae hyn yn golygu bod swyddogion wedi gorfod edrych ar bob ward a phob cymuned y mae'n effeithio arnynt wrth iddo deithio i'r môr i weld a oes digon o wytnwch yn y gridiau neu'r sianeli sydd gan yr awdurdod yno ac yna rhoi'r cyfrifiadau hyn ar waith yn seiliedig ar y mathau o hynny lifogydd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod 1 digwyddiad llifogydd bob 30 mlynedd yn digwydd yn eithaf rheolaidd erbyn hyn ac mae 1 digwyddiad llifogydd bob 100 mlynedd hefyd yn digwydd yn fwy aml.

Nid yw swyddogion yn poeni cymaint am law parhaus ond maent yn gweld llawer mwy o lifogydd dirybudd, sy'n rhoi straen ar bob system ddraenio ni waeth ble ydyn nhw ac mae yna dŵr ffo mewn mannau lle nad ydynt erioed wedi'i weld o'r blaen.

Ychwanegodd swyddogion rywfaint o wybodaeth ynghylch y mater o effeithiau ariannol os nad oedd yr awdurdod am roi'r mesurau amddiffynnol ar waith a dywedwyd ei fod yn ymwneud yn fwy â'r gost a'r gwerth i'r asedau sy'n cael eu diogelu yn hytrach nag effeithiau cymdeithasol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, er bod agweddau cymdeithasol yn gyffredinol pan fydd llifogydd yn digwydd, y byddai cost y canlyniadau llawer yn uwch na'r buddsoddiad cyfalaf hwnnw gyda difrod i eiddo a'r holl agweddau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phobl yn gorfod symud.

Dywedodd swyddogion y byddai'r costau, heb wneud y gwaith lliniaru, yn enfawr o'u cymharu â'r buddsoddiad cyfalaf. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gan bob awdurdod lleol gyfres o gynlluniau ac fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn tueddu i gymryd safbwynt blaenoriaethu wrth edrych ar yr holl gynlluniau.

Defnyddiodd swyddogion yr enghraifft o ardal Sandfields lle effeithir ar 6500 eiddo. Roedd hynny'n effaith fawr ac roedd y cynllun hwnnw'n eithaf agos at gyrraedd uchafswm y buddsoddiad a oedd ar gael. Mae hyn yn golygu ei fod yn ymwneud â gwerth asedau a ddiogelir yn hytrach nag effeithiau ariannol canlyniadol, ond byddent yn enfawr.

Rhoddodd y Cynghorydd Hurley, Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd, adborth bod gan yr awdurdod gynllun cadarn gyda phopeth ar waith yn barod i wneud cais am y cyllid a dywedodd mai'r unig gyfyngiad ar y gwaith yn yr awdurdod i ddiogelu'r ardal a'r fwrdeistref yw cyllid Llywodraeth Cymru. Dywedodd Aelod y Cabinet fod angen i aelodau lobïo a helpu swyddogion i geisio cyflawni'r cyllid hwnnw.

Mewn perthynas â glan y môr, dywedodd y Cynghorydd Hurley fod yn rhaid iddynt hefyd ystyried fod hen safle British Petroleum y tu hwnt i'r 'Clwb Llynges', sydd bellach yn dir Llywodraeth Cymru ac sydd o bosib wedi'i glustnodi ar gyfer y Porthladd Rhydd a'r datblygiad. Dywedodd Aelod y Cabinet fod angen i'r awdurdod wella'r amddiffyniad yno neu na fydd modd defnyddio'r tir hwnnw ac y bydd hynny'n golled enfawr i'r ardal a'r rhanbarth hefyd.

Yn dilyn gwaith craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion.

## 6. <u>YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU</u>

Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u dewis o'r Flaenraglen Waith Craffu.

## 7. <u>MONITRO PERFFORMIAD</u>

Nid oedd adroddiadau monitro perfformiad i'w hystyried.

## 8. <u>DETHOLIADAU O EITEMAU I'W CRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL</u>

Cadarnhaodd swyddog y Gwasanaeth Democrataidd fod yr Aelodau wedi penderfynu ychwanegu Adroddiad Pleidleisio Adnewyddu Port Talbot VIVA at Flaenraglen y Pwyllgor Craffu i ystyried yr eitem yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 20 Medi.

## 9. <u>EITEMAU BRYS</u>

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag